Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

**Finance Committee**
**Y Pwyllgor Cyllid**

I'r ymgyngoreion ar y rhestr amgaeedig

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

29 Gorffennaf 2011

Annwyl gyfeillion,

**Galwad am wybodaeth – Cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-13**

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn galw am wybodaeth i gynorthwyo pwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru gyda'r gwaith o graffu ar gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-13. Rydym am glywed beth yw eich disgwyliadau ynghylch cyllideb 2012-13 ac unrhyw bryderon sydd gennych mewn perthynas â dyraniadau cyllidol mewn meysydd penodol.

Nid ydym yn gwybod beth fydd cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-13 ar hyn o bryd, oherwydd ni fydd y cyngion yn cael eu cyhoeddi hyd nes 4 Hydref eleni. Fodd bynnag, rydym yn gwybod y byddant yn cael eu cyhoeddi yn ystod cyfnod o wasgedd ariannol neilltuol ar y sector cyhoeddus yng Nghymru, ac mae gennym y ffigurau dangosol a ddarparwyd yng nghyllideb atodol diweddar Llywodraeth bresennol Cymru.[1]

Rydym wedi nodi pum cwestiwn yn y papur hwn. Gallwch ateb pob un/rhai o'r cwestiynau hyn, neu roi nodi'n fras eich pryderon a'ch disgwyliadau o'r gyllideb ddrafft.

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn edrych ar gyllideb Llywodraeth Cymru o safbwynt strategol a chyffredinol. Rydym hefyd yn cydweithio â phwyllgorau eraill y Cynulliad i sicrhau bod cynigion ar gyfer portffolios Gweinidogol penodol yn cael eu hystyried yn fanwl. Bydd pob pwyllgor yn cynnal sesiynau i ganolbwyntio ar dystiolaeth gan y Gweinidogion perthnasol er mwyn archwilio i'r agweddau ar y gyllideb sy'n dod o

---

[1] http://wales.gov.uk/about/budget/supbudgetjune2011/?skip=1&lang=cy

Ffon / Tel: 029 20 898149
E-bost / E-mail:
FinanceCommittee@cymru.gov.uk

dan eu cylchoedd gwaith hwy, ac wedyn yn adrodd yn ôl i ni gan amlinellu unrhyw bryderon sydd ganddynt.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal i hyrwyddo gwaith y Pwyllgor Cyllid a phwyllgorau eraill y Cynulliad. Os yw'r wybodaeth rydych yn ei darparu yn berthnasol ar gyfer un maes arbennig, byddwn yn trosglwyddo'r wybodaeth honno at y pwyllgor(au) perthnasol i'w defnyddio wrth graffu ar dystiolaeth gan Weinidogion unigol.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y pwyllgorau hyn, yn ogystal â gwybodaeth gefndirol am y Pwyllgor Cyllid, beth yw cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, a sut y gallwch gael mynediad at ffigurau dangosol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-13 yn atodiad 1.

**Darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor**

Hoffem wahodd unigolion a grwpiau sydd â diddordeb mewn gwneud cyfraniad i anfon tystiolaeth ysgrifenedig at Glerc y Pwyllgor Cyllid yn y cyfeiriad uchod, i gyrraedd erbyn **dydd Gwener 16 Medi 2011**. Os ydych yn dymuno cyfrannu, ond yn pryderu na fyddwch yn gallu gwneud hynny cyn y dyddiad cau, gallwch siarad â Chlerc y pwyllgor ar 029 2089 8597.

Os yn bosibl, anfonwch fersiwn electronig o'ch tystiolaeth, naill ai ar ffurf dogfen MS Word neu destun cyfoethog, drwy e-bost at Finance.Comm@cymru.gov.uk **erbyn dydd Gwener 16 Medi 2011**.

Byddem yn ddiolchgar pe baech yn rhoi ychydig o wybodaeth am eich hun neu'ch sefydliad ar ddechrau eich cyfraniad, cyn amlinellu eich barn a'ch profiad mewn perthynas â rhai o'r meysydd a ganlyn, neu pob un ohonynt:

**Y wybodaeth yr hoffwn ei chael gennych: cwestiynau'r ymgynghoriad**

1. O edrych ar y dyrianiadau cyllidebol dangosol ar gyfer 2012-13, a oes gennych unrhyw bryderon o safbwynt strategol a chyffredinol?
2. O edrych ar y dyraniadau cyllidebol dangosol ar gyfer 2012-13, a oes gennych unrhyw bryderon am agweddau penodol arnynt?
3. Pa ddisgwyliadau sydd gennych am y cynigion cyllideb ddrafft ar gyfer 2012-13? Pa ymrwymiadau gwariant a blaenoriaethau yr hoffech eu gweld yng nghynigion y gyllideb ddrafft at gyfer 2012-13?
4. Nid yw Llywodraeth newydd Cymru wedi cyhoeddi rhaglen lywodraethu eto. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio ei bod yn ceisio dilyn trywydd sy'n seiliedig ar ganlyniadau, gyda'r Prif Weinidog yn datgan:

"delivery will be the watchword of the next Welsh Labour government."[2] Pa ganlyniadau—os o gwbl—dylai Llywodraeth Cymru geisio eu cyflawni drwy ei chyllideb ddrafft ar gyfer 2012-13?

5. A allwch awgrymu unrhyw elfennau a ddylai gael eu cynnwys yng nghynigion y gyllideb ddrafft ar gyfer 2012-13 i gynorthwyo cydweithio mwy effeithiol?

Mae'r pwyllgor wedi gwahodd cyfraniadau gan y rhai sydd ar y rhestr amgaeedig (Atodiad 2). Fodd bynnag, **byddem yn ddiolchgar pe baech yn anfon copi o'r llythyr hwn at unrhyw unigolion neu sefydliadau yr ydych yn credu y byddai'n dymuno cyfrannu at ein gwaith**. Mae copi o'r llythyr hwn ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol, ynghyd â gwahoddiad agored i gyflwyno sylwadau.

## Datgelu gwybodaeth

*Dylai tystion fod yn ymwybodol bod unrhyw dystiolaeth sy'n cael ei gyflwyno i'r pwyllgor yn cael ei drin fel eiddo'r pwyllgor hwnww. Bwriad y pwyllgor yw cyhoeddi papurau ysgrifenedig ar ei wefan, a gall y papurau hyn hefyd gael eu printio yn adroddiad y pwyllgor. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi unrhwy wybodaeth y mae'n tybio i fod yn wybodaeth bersonol.*

*Fodd bynnag, os byddwn yn cael cais am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, efallai y bydd yn ofynol i ni ddatgelu'r wybodaeth rydych yn ei darparu. Bydd hyn o bosibl yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi cael ei chadw'n ôl gan y Cynulliad Cenedlaethol rhag iddi gael ei chyhoeddi.*

*Os ydych yn darparu unrhyw wybodaeth, heblaw gwybodaeth bersonol, sydd yn eich barn chi yn anaddas ar gyfer cael ei datgelu i'r cyhoedd, neu os nad ydych yn dymuno i'ch enw, fel awdur y dystiolaeth, gael ei ddatgelu, rhaid nodi hyn yn glir. Eich cyfrifoldeb chi fydd nodi pa rannau o'r dystiolaeth na ddylent gael eu cyhoeddi, a darparu rhesymau dilys dros wneud hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu ymateb i geisiadau am wybodaeth.*

Gellir gweld rhagor o wybodaeth am y Pwyllgor Cyllid a'i galwad am wybodaeth yn: www.cynulliadcymru.org

Yn gywir



**Jocelyn Davies AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid**

---

[2] BBC Cymru, Ed Miliband yn annog Llafur Cymru i bleidleisio yn erbyn 'dogma,' 19 Chwefror 2011, ar gael yn http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-12512344

## Atodiad 1- Gwybodaeth gefndirol

### Pwy ydym ni?

Pwyllgor trawsbleidiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r Pwyllgor Cyllid, sy'n cynnwys Aelodau o'r bedair plaid wleidyddol sy'n cael ei chynrychioli yn y Cynulliad.

Nid yw'r pwyllgor yn rhan o Lywodraeth Cymru. Yn hytrach, mae'r pwyllgor yn gyfrifol am adrodd yn ôl ar gynigion a osodir gerbron y Cynulliad gan Weinidiogion Cymru mewn perthynas â defnyddio adnoddau.

### Pa bwyllgorau eraill sy'n craffu ar y gyllideb?

Y pwyllgorau eraill sy'n craffu ar y gyllideb yw:

- Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
- Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
- Y Pwyllgor Menter a Busnes
- Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
- Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

### Beth yw cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru?

Rhaid i gynigion y gyllideb ddrafft gynnwys manylion ynghylch faint o adnoddau y mae Llywodraeth Cymru yn cynnig eu defnyddio yn ystod y flwyddyn ariannol ddilynol a ffigurau dangosiadol ar gyfer y ddwy flynedd ariannol ar ôl hynny. Yn fwy penodol, dylai'r cynigion amlinellu:

- yr adnoddau sy'n cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad, yr Archwilydd Cyffredinol a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus;
- yr incwm i'w gadw gan y sefydliadau hynny (yn hytrach na chael ei ildio i Gronfa Gyfunol Cymru);
- yr arian parod sydd i'w dynnu'n ôl o Gronfa Cyfunol Cymru gan y sefydliadau hynny.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi darparu dogfen naratif sy'n esbonio ymhellach y dyraniadau manwl i adrannau'r Llywodraeth, yn ogysal â chronfeydd wrthgefn a dyraniadau cyffredinol eraill.

**Pam nad ydym yn cynnal yr ymgynghoriad hwn ar ôl i gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru gael eu cyhoeddi?**

Ni fydd ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn eithrio rhanddeiliaid rhag ddarparu gwybodaeth, tystiolaeth a materion eraill i graffu arnynt â Phwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, na mynegi unrhyw bryderon, **ar ôl** i gynigion y gyllideb ddrafft gael eu cyhoeddi (ar 4 Hydref).

Fodd bynnag, bydd pwyllgorau fel arfer yn dechrau ar y gwaith o graffu ar dystiolaeth gan Weinidogion y Llywodraeth ar gynnwys y gyllideb ddrafft wythnos neu bythefnos ar ôl i'r gyllideb gael ei chyhoeddi, gyda'r bwriad o gyflwyno eu casgliadau i'r Pwyllgor Cyllid ddiwedd mis Hydref. Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Cyllid adrodd yn ôl ar y gyllideb ddrafft erbyn 8 Tachwedd.

Golyga hyn fod yr amser sydd ar gael i randdeiliaid leisio eu pryderon i'r pwyllgorau fel arfer yn gyfyngedig iawn (wythnos neu bythefnos). Wrth ymgynghori yn awr, gobeithiwn y bydd gan randdeiliaid mwy o amser i ystyried effaith posibl y gyllideb.

**Beth yw'r dyraniadau dangosol ar gyfer 2012-13?**

Yn dilyn etholiad y Cynulliad ym mis Mai eleni, gosododd Llywodraeth newydd Cymru gyllideb atodol, a dywedodd y Gweinidog Cyllid:

> "The main purpose of the supplementary budget is to align the 2011-12 budget structures with changes to the Welsh Government ministerial portfolios announced by the First Minister in May.... [and to] enable us to be strategic in the delivery of our programme of government."[3]

Mae'r gyllideb atodol ar gael yn:
http://wales.gov.uk/about/budget/supbudgetjune2011/?skip=1&lang=cy

Mae'r dudalen hon yn cynnys linc i gynnig cyllideb ddrafft ar gyfer 2011-12, nodyn esboniadol ar y gyllideb atodol a dyraniadau'r prif grwpiau gwariant yn y gyllideb atodol (sydd hefyd yn cynnwys dyraniadau dangosol ar gyfer 2012-13).

[3] Y Cofnod, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, 28 Mehefin 2011, Para 5-6

**Atodiad 2**

Rhestr o ymgyngoreion

| |
|---|
| Abertawe Bro Morgannwg University Health Board |
| Action for Children |
| ADEW |
| Age Cymru |
| All Wales Ethnic Minority Association |
| Aneurin Bevan Health Board |
| Anti Poverty Network Cyrmu |
| Arts Council of Wales |
| Asian Women's Group |
| Association of Directors for Social Services Cymru |
| ATL Cymru |
| Bangladeshi Welfare Association |
| Barnardos Cymru |
| Betsi Cadwaladr University Health Board |
| Bevan Foundation |
| Big Lottery Fund – Wales |
| Black Association of Women Stepping Out |
| Black Environment Network |
| Black Voluntary Sector Network Wales |
| Board of Community Health Councils in Wales |
| British Association of Social Workers Cymru |
| British Dental Association |
| British Medical Association |
| British Orthodontic Society |
| British Red Cross |
| Business in Focus |
| CAFCASS Cymru |
| Capital Region Tourism |
| Carbon Trust Wales |
| Cardiff & Vale University Health Board |
| Careers Wales |
| Carers Wales |
| CBI Wales |
| Chartered Institute of Management Accountants |
| Children in Wales |
| Children’s Commissioner for Wales |
| Chwarae Teg |
| Citizens Advice Bureau – Cymru |
| Clybiau Plant Cymru Kids Clubs |
| College of Occupational Therapists |
| Community Pharmacy Wales |
| Confederation of Passenger Transport |
| Construction Skills |

| |
|---|
| Consumer Focus Wales |
| Contact a Family Wales |
| Country Land and Business Association (CLA) |
| Countryside Council for Wales (CCW) |
| Crossroads Care Wales |
| Cskills |
| CSSIW |
| Cwm Taf Health Board |
| Cymorth Cymru |
| Cymru Yfory |
| Deaf Association Wales |
| Disability Wales |
| Disabled Children Matter |
| DTA Wales |
| Energy Saving Trust Wales |
| Environment Agency Wales |
| Equality & Human Rights Commission in Wales |
| Estyn |
| European Commission |
| Farmers’ Union of Wales (FUW) |
| Forestry Commission Wales |
| Freight Transport Association |
| FSB Cymru |
| Funky Dragon |
| General Dental Council |
| General Medical Council |
| GMB Union |
| Governors Wales |
| Grayling |
| Hafal |
| HEFCW |
| Higher Education Wales |
| Hywel Dda Health Board |
| Joint Council for the Welfare of Immigrants |
| MEWN Cymru |
| Money Advice Service |
| Mother's Union in Wales |
| NAHT |
| NASUWT |
| National Farmers’ Union Cymru (NFU) |
| National Offender Management Service |
| National Parks |
| Neonatal Nurses Association |
| Network Rail |
| North Wales Race Equality Network |
| NSPCC Cymru |
| NUS Wales |

| |
|---|
| NUT Cymru |
| Older People’s Commissioner for Wales |
| Pakistan Association of Newport & Gwent Welsh Asian Council |
| Passenger Focus Wales |
| Play Wales |
| Powys Teaching Health Board |
| Public Health Wales NHS Trust |
| Race Equality First |
| Refugee Voice Wales |
| RICS |
| Royal British Legion |
| Royal College of General Practitioners |
| Royal College of Midwives |
| Royal College of Nursing |
| RSC |
| Samaritans |
| Save the Children Cymru |
| Sustrans |
| Talking2Minds |
| The National Autism Society Cymru |
| The Prince's Trust - Cymru |
| Tros Gynnal |
| TUC |
| UCAC |
| UCU |
| UNISON Wales |
| Unite Union |
| Velindre NHS Trust |
| Voice Cymru |
| Voices from Care |
| Wales Environment Link |
| WCVA |
| Welsh Ambulance Services NHS Trust |
| Welsh Women’s Aid |
| WLGA |